## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Ddydd Llun 20fed Hydref 2008 yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| W Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod) ; K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Hanks (Dirprwy Brif Swyddog Tân); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Adnoddau); R Simmons (Prif Swyddog Cynorthwyol, Sefydliadol a Threfnu Pobl); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); L Marsh (Cynorthwyydd Cynllunio Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**RHAN 1**

1 YMDDIHEURIADAU

| Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

| | |
|---|---|
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| SWYDDOG | |
| P Claydon | Dirprwy Brif Swyddog Tân (Sicrwydd Gweithredol) |

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Cynghorodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno er ystyriaeth y Clerc.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 16eg Mehefin 2008

3.2 ***PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a dilys o'r trafodion***

3.3 Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol cynhaliwyd ar 28ain Gorffennaf 2008.

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

5 Y GANOLFAN CYFATHREBIADAU AR Y CYD

5.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad i'r Aelodau ar gychwyn y cyfarfod am y Ganolfan Cyfathrebiadau ar y Cyd newydd. Roedd yr Ystafell Reoli wedi symud i'r ganolfan yng Nghrud y Dderwen ar 7fed Hydref ac roedd y symudiad wedi bod yn llwyddiannus. Roedd Swyddogion wedi nodi fod y gwasanaethau wedi cydweithio'n llwyddiannus eisoes.

5.2 Llongyfarchodd y Cynghorydd Davies yr holl staff ond nododd ei siomedigaeth fod y wasg wedi defnyddio lluniau o'r Prif Gwnstabl yn y papurau lleol. Mewn ymateb, cadarnhawyd fod y Daily Post wedi defnyddio llun o'r Prif Swyddog Tân hefyd a bod natur partneriaeth y Ganolfan wedi ei hysbysebu.

5.3 ***PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.***

6 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad yn ymwneud â'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd oedd ef a'r Is-Gadeirydd wedi eu mynychu er cyfarfod mis Mehefin.

6.2 Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cadarnhau fod Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi cael ei wneud yn aelod cyfetholedig o'r Cyngor Partneriaeth (ar ran yr holl Awdurdodau Tân ac Achub).

6.3 ***PENDERFYNWYD* nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

7 CYMERADWYO CYNLLUN LLEIHAU RISG DRAFFT 2009-10 YR AWDURDOD

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2009-10; i lunio ymateb yr Awdurdod i'r materion a godwyd; i gyflwyno argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu i'r Awdurdod Tân ac Achub.

7.2 Fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) fod y cynigion wedi cael eu hystyried bellach gan y Panel Gweithredol a gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar 22ain Medi.

7.3 Roedd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân wedi cwrdd â'r Gweinidog ar 14eg Hydref i roi diweddariad iddo ar ganlyniad yr ymgynghoriad, yn unol gyda gofynion y broses. Nid oedd y Gweinidog wedi dynodi fod ganddo unrhyw bryderon gyda'r cynigion.

7.4 ***PENDERFYNWYD:***

**(i) nodi'r adroddiad yn crynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2009-10;**
**(ii) cefnogi'r ymatebion drafft i'r sylwadau a dderbyniwyd;**
**(iii) cymeradwyo argymhellion y Panel Gweithredol, fel y gosodir isod:**

- **Symud ymlaen gyda'r Adolygiad o Swyddogion Wrth Gefn er mwyn darparu adnoddau ar gyfer tîm sicrwydd gweithredol a gwaith diogelwch cymunedol;**
- **Symud ymlaen i adolygu'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr a phan fo'r cyfle'n codi, trosglwyddo arian y swyddi penodol yma i ariannu rhagor o ymarferwyr diogelwch cymunedol ar y telerau ac amodau mwyaf priodol i gwrdd â nodau'r Awdurdod;**
- **Fod y trefniadau arlwyo'n fater rheoli ac y dylid dileu'r cynnig hwn o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg;**
- **Ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o Risg ar draws Gogledd Cymru er mwyn cynhyrchu'r Cynllun Lleihau Risg 2009/10 llawn.**

8 CYNLLUN GWELLA DRAFFT 2008-09

8.1 Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Cynllun Gwella 2008-09 drafft yr Awdurdod (gan ymgorffori cynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2009-10) am gymeradwyaeth cyn ei gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2008.

8.2 Arweiniodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) yr Aelodau drwy'r Cynllun Gwella drafft ac amlygu fod angen mwy o waith i ostwng y nifer o farwolaethau ac anafiadau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi.

8.3 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu meddalwedd Ffynnon i hwyluso'r cymariaethau rhwng Awdurdodau yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai perfformiad yn parhau i gael ei fonitro a'u cymharu gydag 'Awdurdodau 'grŵp teulu' yn Lloegr. Cadarnhaodd y Clerc y byddai dadansoddi data yn hawddach ac y byddai hefyd yn gallu dal gwybodaeth rheoli risg.

8.4 ***PENDERFYNWYD***

**(i) nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2008-09 a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009-10 cyn 31ain Hydref 2008;**
**(ii) cefnogi cynnwys manylion o benderfyniadau'r Awdurdod parthed Cynllun Gweithredu'r Cynllun lleihau Risg 2009-10 o fewn y Cynllun Gwella; a**
**(iii) cymeradwyo'r Cynllun Gwella drafft 2008-09 gan ymgorffori Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2009-10 i'w gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2008.**

9 ADOLYGIAD PENSIYNAU

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i roi gwybodaeth am safle presennol yr Aelodau ar ariannu Cynllun Newydd Pensiwn Diffoddwyr Tân. Roedd yr adroddiad yn ystyried effaith y cynllun pensiwn newydd ar y Ddarpariaeth Pensiwn sydd gan yr Awdurdod.

9.2 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd fod y trefniant pensiwn yn gynllun 'talu wrth fynd', sy'n wahanol i gynllun pensiwn Llywodraeth Leol ac felly, nid oedd yn dibynnu ar fuddsoddiadau i ariannu'r cynllun yn uniongyrchol.

9.3 ***PENDERFYNWYD*** **nodi cynnwys yr adroddiad.**

10 ALLDRO DROS DRO 2008-2009

10.1 Cyn ystyried yr adroddiad, fe gadarnhaodd y Trysorydd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub, KPMG (archwilwyr) a Swyddfa Archwilio Cymru am ddarpariaethau a chredydwyr. Cytunwyd fod darpariaethau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ddarpariaethau gwirioneddol. Maent hefyd yn weddol fychan o gymharu gydag Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru, ac o ganlyniad, roedd y cyfrifon wedi cael eu cytuno a'u harwyddo yn amodol ar newidiadau bychan.

10.2 Mewn cyfarfod gyda'r Gweinidog, roedd Cadeiryddion y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi cymryd y cyfle i godi eu pryderon ar y mater o ddarpariaethau. Roedd y Gweinidog a swyddogion yn cydymdeimlo a

gobeithir byddai system well yn ei lle yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd nad oedd yn debyg byddai unrhyw un o'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn gofyn am gael dod yn awdurdodau archebiant.

10.3 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi alldro amcangyfrifedig dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-2009.

10.4 ***PENDERFYNWYD* nodi'r tanwariant amcangyfrifedig o £23,118 sy'n ddibynnol ar y nifer o ddigwyddiadau a fynychir rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol.**

11 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er dibenion monitro. Roedd y Dangosyddion Darbodus amcangyfrifedig ar gyfer 2008-09 gafodd eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth 2008 wedi newid oherwydd llithriad yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2007-08. Hefyd, cymerwyd dau fenthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i ariannu gwariant cyfalaf.

11.2 ***PENDERFYNWYD***

**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig;**
**(ii) nodi'r rhestr ddiwygiedig o gymheiriaid; a**
**(iii) nodi benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.**

12 ADOLYGIAD CYFANSODDOL

12.1 Rhoddodd y Clerc gyflwyniad am adolygiad cyfansoddol (sleidiau ynghlwm). Roedd hyn yn ymateb i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin 2008 oedd yn amlygu'r angen i'r Awdurdod gael swyddogaeth craffu/archwilio.

12.2 Croesawodd yr aelodau'r cynnig i sefydlu pwyllgor archwilio ac i gydnabod y byddai'n darparu amddiffyniad ac yn amddiffyn diddordebau'r Awdurdod. Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r cynnig fod y pwyllgor yn ymgorffori'r swyddogaeth craffu.

12.3 Ar y Panel Gweithredol, byddai'n well gan yr Aelodau barhau gyda'r trefniadau presennol o gael dau aelod o bob Awdurdod Lleol ar y Panel. Gwnaed awgrymiad y gallai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fod yn un o'r cynrychiolwyr o'u Hawdurdodau Lleol.

12.4 Mewn ymateb i gais gan Aelod, cytunwyd byddai cofnodion cyfarfodydd y Panel Gweithredol yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod (hyn yn oed mewn ffurf drafft gan aros am ei fabwysiadu fel cofnod cywir). Hefyd, fe gadarnhawyd y gallai'r holl Aelodau fynychu'r holl bwyllgorau fel arsylwyr.

12.5 ***PENDERFYNWYD* cytuno fod y Clerc yn cyflwyno argymhellion llawn ar yr opsiynau i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr, gan ymateb i'r cyngor a roddwyd.**

13 CYLCHGRAWN ER GWYBODAETH

13.1 Roedd y cylchgrawn, oedd yn dangos staff yn cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth ac yn codi arian ar draws Gogledd Cymru, wedi cael ei ddosbarthu i'r Aelodau o flaen llaw. Gofynnodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân i'r Aelodau nodi gwaith da staff gorsaf Bae Colwyn, sydd wedi codi llawer o arian i elusen y Diffoddwyr Tân.

13.2 Nododd y Cadeirydd y dylai'r cylchgrawn gael ei roi mewn cystadleuaeth ar gyfer cyhoeddiadau o'r math hwn.

13.3 ***PENDERFYNWYD* derbyn Er Gwybodaeth.**

**RHAN II**

Roedd yr adroddiad canlynol wedi ei heithrio rhag datgeliad fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

14 TREFNIADAU WRTH GEFN MEWN DIGWYDDIADAU O AFLONYDDWCH MAWR

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi'r wybodaeth i Aelodau am brosiect cenedlaethol, arweiniwyd gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân, i gaffael lefel o gydnerth mewn unrhyw ddigwyddiad o aflonyddwch mawr yn y cyflwyniad o wasanaeth gweithredol. Fireguard yw enw cyffredin y prosiect.

14.2 Roedd y Panel wedi derbyn cyflwyniad manwl ar y prosiect yn ei gyfarfod ar 22ain Medi ac yn dilyn trafodaethau, roedd yr Aelodau wedi penderfynu peidio â symud ymlaen gyda'r prosiect a gofyn i'r Prif Swyddog Tân edrych am ddatrysiadau amgen ar sail partneriaeth o fewn Cymru. Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod gyda Chadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr a Chymru ac wedi cadarnhau mai ychydig iawn o ddiddordeb a hyder oedd yn y prosiect mewn mannau eraill.

14.3 ***PENDERFYNWYD***

- **(i) nodi'r wybodaeth mewn perthynas â'r Prosiect Fireguard;**
- **(ii) cefnogi penderfyniad y Panel Gweithredol i dynnu allan o'r prosiect ac edrych am ddatrysiadau amgen i'r mater fydd yn cwrdd ag anghenion lleol;**
- **(iii) cefnogi'r Prif Swyddog Tân wrth iddo ddatblygu datrysiad lleol mewn cydweithrediad ar y cyd gyda Phrif Swyddogion Tân yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru;**

**(iv)** **fod y Cadeirydd/Clerc yn ysgrifennu at yr holl Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mater; a**

**(v)** **bod cwestiwn yn cael ei ofyn yn ystod sesiwn lawn y Cynulliad i sicrhau fod y mater ym mharth y cyhoedd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.